Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2022 Rhif 423 (Cy. 104)

LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Rheoliadau'r Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol (Diben Masnachol) (Amodau) (Cymru) (Diwygio) 2022

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae adran 24 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ("y Ddeddf") yn rhoi pŵer cymhwysedd cyffredinol i brif gynghorau a chynghorau cymuned cymwys. Yn benodol, mae'r pŵer cymhwysedd cyffredinol yn rhoi i'r awdurdodau hynny bŵer i wneud pethau penodol at ddiben masnachol.

Mae'r pŵer i wneud pethau at ddiben masnachol yn ddarostyngedig i amodau a nodir yn adran 27 o'r Ddeddf. O dan adran 27(2), wrth arfer y pŵer cyffredinol at ddiben masnachol rhaid gwneud hynny drwy gyfrwng cwmni.

Mae adran 28(4) o'r Ddeddf yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru i ddarparu, drwy reoliadau, y bydd arfer y pŵer cyffredinol yn ddarostyngedig i amodau ychwanegol.

Mae Rheoliadau'r Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol (Diben Masnachol) (Amodau) (Cymru) 2021 ("Rheoliadau 2021") yn rhagnodi'r amodau sydd i'w bodloni gan brif gyngor cyn arfer y pŵer cyffredinol at ddiben masnachol.

Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliad 1(2) o Reoliadau 2021 i gynnwys cynghorau cymuned cymwys o fewn ystyr "awdurdod". Effaith hyn yw estyn cymhwysiad Rheoliadau 2021 i gynghorau cymuned cymwys o 5 Mai 2022, sef y dyddiad y caniateir iddynt ddechrau arfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol, gan gynnwys at ddiben masnachol.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Is-adran Democratiaeth Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2022 Rhif 423 (Cy. 104)

LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Rheoliadau'r Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol (Diben Masnachol) (Amodau) (Cymru) (Diwygio) 2022

Gwnaed	*4 Ebrill 2022*
Gosodwyd gerbron Senedd Cymru	*6 Ebrill 2022*
Yn dod i rym	*5 Mai 2022*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 28(4), (5)(b) a (6)(c) o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021(**1**).

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol (Diben Masnachol) (Amodau) (Cymru) (Diwygio) 2022.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 5 Mai 2022.

Diwygio Rheoliadau'r Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol (Diben Masnachol) (Amodau) (Cymru) 2021

2. Yn rheoliad 1(2) (enwi, cychwyn a dehongli) o Reoliadau'r Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol (Diben Masnachol) (Amodau) (Cymru) 2021(**2**), yn y diffiniad o "awdurdod", ar y diwedd mewnosoder "neu gyngor cymuned cymwys o fewn ystyr adran 30(1) o Ddeddf 2021".

(**1**) 2021 dsc 1.
(**2**) O.S. 2021/1166 (Cy. 288).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Rebecca Evans
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, un o
Weinidogion Cymru
4 Ebrill 2022